NEWYDDLEN

Y NEWYDDION DIWEDDARAF I HOLL STAFF Y BRIFYSGOL Rhagfyr 2010

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

Yr Athro
John Hughes

PRIFYSGOL RYNGWLADOL I'R RHANBARTH

MEWN CYFWELIAD BYR, MAE'R IS-GANGHELLOR, YR ATHRO JOHN HUGHES, YN AMLINELLU EI FEDDYLIAU A'I ARGRAFFIADAU WRTH DDECHRAU YN EI SWYDD NEWYDD.

Sut mae'n teimlo i fod yn seithfed Is-Ganghellor Prifysgol Bangor a beth ydych chi'n ei feddwl yw'r prif sialensiau sy'n ein hwynebu?

Mae'n fraint ac yn anrhydedd i mi fy mod wedi fy mhenodi'n Is-Ganghellor Prifysgol Bangor ac rwy'n edrych ymlaen at gyfarfod â'r holl staff dros yr wythnosau a'r misoedd i ddod a chydweithio â hwy. Mae gan y Brifysgol hanes clodwiw a chymeriad unigryw ac mae wedi cyflawni llawer iawn ers ei sefydlu. Gwelir yma hefyd awyrgylch ragorol o deyrngarwch ac ysbryd colegol ac rwy'n bwriadu gwneud popeth a allaf i ddiogelu'r nodweddion hynny.

Wrth gyfarfod â staff ar draws y sefydliad, rwy'n gweld ysbryd arloesol a dewr wrth wynebu'r sialensiau sydd o'n blaenau. Bydd yr hinsawdd economaidd yn anodd i bob prifysgol dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, ond mae sefydlogrwydd ariannol yn allweddol bwysig i sicrhau llwyddiant academaidd. Mae Bangor yn wynebu'r cyfnod hwn mewn safle gweddol gadarn yn ariannol ac rwy'n benderfynol o sicrhau ein bod yn cynnal ansawdd uchel ein darpariaeth heb fynd i ddyled.

Beth yw'r ffordd ymlaen?

I adeiladu ar ein llwyddiannau, mae'r rhaid i'r Brifysgol recriwtio'r bobl orau a dal gafael arnynt, a rhaid gwobrwyo rhagoriaeth yn briodol ar lefel bersonol ac ar lefel ysgolion/adrannau. Mewn ymchwil mae'n rhaid i ni ganolbwyntio ar feysydd lle rydym eisoes yn gryf, pynciau sydd â photensial amlwg iddynt, a materion perthnasol i flaenoriaethau cenedlaethol a rhanbarthol yn y meysydd cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd. Rhaid i ni fod yn effro hefyd i gyfleoedd rhyngddisgyblaethol mewn dysgu ac ymchwil. Mae'n rhaid i brifysgol lwyddiannus fedru ymaddasu'n gyflym i newidiadau yng ngofynion ei myfyrwyr a chymdeithas yn gyffredinol. Rhaid i arloesi o'r fath gael ei arwain gan ein staff a'r ysgolion a'r colegau, ond rhaid i'r Brifysgol fod yn barod i adleoli adnoddau i gefnogi syniadau newydd.

Fodd bynnag, un o nodweddion y prifysgolion gorau un yw eu bod yn cadw'r disgyblaethau academaidd traddodiadol a'u gwarchod. Mewn gwirionedd, gall llif cyllid allanol i feysydd sy'n denu cefnogaeth ymchwil hael alluogi prifysgol i gyfeirio mwy o'i chyllid sefydliadol i gefnogi rhagoriaeth mewn meysydd eraill. Trwy brosesau o'r fath mae'r prifysgolion gorau wedi llwyddo i gynnal cryfderau mawr yn y dyniaethau a'r celfyddydau, er enghraifft, gan wrthsefyll temtasiynau ariannol i droi'r brifysgol yn grŵp o sefydliadau ymchwil neu i gyfyngu eu cenhadaeth addysgol. Rhaid i ni ochel sefyllfa lle mae ein dyheadau academaidd yn gorffwys yn unig ar berfformiad ymchwil.

Beth yw'r camau nesaf?

Byddwn yn gweithio ar Gynllun Strategol newydd dros yr ychydig fisoedd nesaf a byddwn yn ymgynghori'n helaeth ar hyn er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu ein ☛

TU MEWN: CYN FYFYRIWR BANGOR YN ENNILL GWOBR NOBEL A NEWYDDION GWOBRWYO ERAILL, GŴYL WYDDONIAETH NEWYDD BANGOR A RHODDION ELUSENNOL.

PRIFYSGOL RYNGWLADOL I'R RHANBARTH

dyheadau mewn dysgu ac ymchwil ac yn cyd-fynd â pholisïau Llywodraeth y Cynulliad. Bydd themâu pwysig penodol yn cynnwys rhyngwladoli'r Brifysgol, rhanbartholi a phartneriaeth, astudio cyfrwng Cymraeg ac ymwneud â'r gymuned.

Mae gan Fangor ymrwymiad cadarn i'w rhanbarth ac rwy'n bwriadu cynnal ac, yn wir, gryfhau'r ymrwymiad hwnnw. Fodd bynnag, nid wyf eisiau i ni fod yn brifysgol ranbarthol gul ei gorwelion ond, yn hytrach, **yn brifysgol ryngwladol ar gyfer y rhanbarth**. Po fwyaf llwyddiannus a pho fwyaf rhyngwladol ydym, po fwyaf y gallwn ei gyfrannu i'r rhanbarth.

Fy nod yw adeiladu ar ein llwyddiannau mewn ehangu mynediad, mewn codi dyheadau, a rhoi cyfleoedd newydd i fyfyrwyr ddod yn eu blaenau mewn cydweithrediad â cholegau AB yn y rhanbarth. Rwyf hefyd eisiau cadarnhau a datblygu ein perthynas ag ysgolion er mwyn sicrhau mai Prifysgol Bangor yw dewis cyntaf myfyrwyr gorau'r ardal. Mae'n rhaid i'r Brifysgol hefyd barhau i gyfrannu'n gryf at fywyd cymdeithasol a diwylliannol y rhanbarth, gwella ein cysylltiadau a'r gymuned a chymryd rhan mewn partneriaethau â diwydiant a masnach.

Fel Is-Ganghellor rwyf yn ymrwymo i roi arweiniad cadarn a phendant ond gyda pharch dwfn at draddodiadau a gwerthoedd y sefydliad. Rwyf eisiau gwella ein dulliau cyfathrebu mewnol ac allanol ac, yn arbennig, y ffordd y mae'r Brifysgol yn ei chyflwyno ei hun a marchnata ei hun yn lleol, cenedlaethol a rhyngwladol. Rwyf hefyd eisiau gweld dulliau gweithredu modern ac effeithlon mewn rheolaeth academaidd a gweinyddol.

Beth bynnag fo'r sialensiau sydd o'n blaenau, rwyf eisiau sicrhau ein bod yn agored i syniadau newydd ac y byddwn yn ymgynghori'n llawn â staff, a gwrando arnynt, ynghylch newidiadau, datblygiadau a chyfleoedd dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.

Byddaf yn ymweld â'r holl Ysgolion ac Adrannau Gwasanaeth ac rwy'n gobeithio cyfarfod â chi ac â chymaint o staff â phosibl dros y semester i ddod.

Yr Athro John Hughes.
Tachwedd 2010

DARLUN NEWYDD

Yn ddiweddar, gwahoddwyd aelodau o'r Cyngor a gwesteion i gyfarfod i ddadorchuddio darlun diweddaraf y Brifysgol. Yn unol â thraddodiad, cafodd darlun o'r cyn Is-Ganghellor, Yr Athro Merfyn Jones, ei ddadorchuddio ganddo ef ei hun. Comisiynwyd David Griffiths, un o arlunwyr portreadau amlycaf y wlad, i baentio'r darlun. Bydd yn hongian yn Ystafell y Cyngor, wrth ochr y casgliad o ddarluniau o gyn Is-Gangellorion a Llywyddion y Brifysgol. Yma gwelir yr Is-Ganghellor presennol, Yr Athro John Hughes, Yr Athro Merfyn Jones a'i wraig, Dr Catrin Hughes, yn edmygu'r gwaith.

RHESTR ANRHYDEDDAU'R FRENHINES

Anrhydeddwyd pedwar cyn-aelod o staff y Brifysgol drwy eu cynnwys ar Restr Anrhydeddau Pen-blwydd y Frenhines. Mae Barbara Kinsella, cyn ysgrifenyddes yn yr Ysgol Cemeg, wedi derbyn MBE am ei chyfraniad i'w chymuned yng Nghemaes, Ynys Môn. Derbyniodd Mr Roger Cooper, a ymddeolodd yn 2004 fel Pennaeth yr hyn a elwir erbyn hyn yn Ysgol yr Amgylchedd, Adnoddau Naturiol a Daearyddiaeth, MBE am ei gyfraniad i goedwigaeth. Derbyniodd Mrs Mair Jones, cyn-bennaeth yr Ysgol Nyrsio (Ysgol Gwyddorau Iechyd bellach) CBE am ei chyfraniad i addysg bellach yng Nghymru, a Mr Neil Roger Jones, cyn-aelod o staff yr hen Ganolfan Biogyfansoddion, MBE am ei gyfraniad i ddarpariaethau achub ar y mynyddoedd yng ngogledd Cymru.



Llun: Bourn Hall

GWOBR NOBEL I UN O RADDEDIGION BANGOR

Mae arloeswr, yr arweiniodd ei waith ym maes IVF (*in vitro fertilisation*) at enedigaeth dros bedair miliwn o blant drwy'r dull hwnnw, wedi derbyn Gwobr Nobel am Feddygaeth 2010. Arweiniodd gwaith arloesol dan arweiniad Yr Athro Robert Edwards FRS, a elwir yn 'dad IVF', a Patrick Steptoe, at enedigaeth 'babi tiwb profi' cyntaf y byd, sef Louise Brown, yn 1978.

Yn enedigol o Batley, Swydd Efrog, yn 1925, graddiodd Robert Edwards mewn Sŵoleg o Brifysgol Bangor yn 1951. Bu'n astudio ym Mangor dan yr Athro blaenllaw, Rogers Brambell, a ysgogodd ei ddiddordeb mawr mewn mamaliaid.

"Rydym yn llongyfarch yr Athro Edwards yn galonnog. Mae ei ymchwil wedi dod â hapusrwydd i gymaint o deuluoedd ledled y byd. Mae'r Athro Edwards hefyd yn Gymrawd er Anrhydedd o Brifysgol Bangor ac rydym wrth ein bodd ar ei ran ei fod wedi ennill cymeradwyaeth mor uchel am ei gyfraniad neilltuol i wyddoniaeth- mewn modd sydd wedi dod â hapusrwydd i gyn gymaint," meddai'r Athro John Hughes, Is-Ganghellor Prifysgol Bangor

Yn 1963, ymunodd Robert Edwards â Phrifysgol Caergrawnt fel Cymrawd Ymchwil Sefydliad Ford yn yr Adran Ffisioleg, ac fel aelod o Goleg Churchill.

Dechreuodd ei waith ym maes ffrwythloni yn 1955, a'i bartneriaeth â Dr Patrick Steptoe, llawfeddyg gynaecolegol, yn 1968. Er i'r ffrwythloni dynol llwyddiannus cyntaf mewn tiwb profi ddigwydd erbyn 1970, nid arweiniodd yr ymchwil at feichiogrwydd llwyddiannus am bron i ddeng mlynedd ar ôl hynny. Erbyn diwedd y 1970au roedd cyllid ar gyfer project Steptoe ac Edwards yn hynod brin ac roedd rhai carfanau yn wrthwynebus i'r gwaith roeddent yn ei wneud. Ond, yn 1978, llwyddwyd i gael beichiogrwydd llwyddiannus a geni Louise Brown, y 'babi tiwb profi' cyntaf erioed. Aeth Edwards a Steptoe ymlaen i sefydlu clinig IVF cyntaf y byd yn Bourn Hall, Caergrawnt, yn 1980.

Yn 1978 roedd Edwards ymysg y rhai cyntaf i dderbyn Cymrodoriaeth er Anrhydedd o Brifysgol Bangor. Yn 2001 cafodd ddoethuriaeth er anrhydedd o Brifysgol Caergrawnt a'r Albert Lasker Clinical Medical Research Award am ddatblygu ffrwythloni in vitro. Erbyn hyn mae'n 85 oed ac yn Bensiynwr Gymrawd yng Ngholeg Churchill, Caergrawnt.

Meddai Louise Brown pan glywodd am y Wobr Nobel: "Mae'n newyddion gwych; mae fy mam a minnau mor falch bod un o arloeswyr IVF wedi cael y gydnabyddiaeth y mae'n ei haeddu. Rydym yn meddwl y byd o Bob ac rydym yn falch iawn o anfon ein llongyfarchiadau personol ato fo a'i deulu ar yr adeg yma."

Fe ddywedodd yr Athro Edwards yn 2008: "Y peth pwysicaf mewn bywyd ydi cael plentyn. Roedd Steptoe a minnau yn teimlo i'r byw wrth weld trallod cyplau a oedd gymaint o eisiau cael plant ac yn methu.

"Roedd yna lawer yn ein beirniadu ond fe wnaethom ymladd yn galed dros ein cleifion. Ond roedd gennym ddigon o gefnogwyr – nid llawer mae'n wir – ond digon i'n galluogi i gario ymlaen efo'n gwaith."

Nobel a Bangor

Yn 2007 dyfarnwyd Gwobr Heddwch Nobel ar y cyd i'r Panel Rhynglywodraethol ar Newid Hinsawdd (IPCC) ac Albert Arnold (Al) Gore Jr. "am eu hymdrechion yn casglu ynghyd a lledaenu gwybodaeth ehangach am newid hinsawdd a achosir gan ddyn, a gosod y seiliau ar gyfer y mesurau sydd eu hangen i wrthweithio newid o'r fath." Un o aelodau'r panel oedd yr Athro Stefan Rahmstorf, un o raddedigion a Chymrawd er Anrhydedd o Brifysgol Bangor, ac awdurdod blaenllaw ar newid hinsawdd. Mae Prifysgol Bangor wedi dyfarnu Gradd er Anrhydedd i'r Archesgob Desmond Tutu, enillydd Gwobr Heddwch Nobel, a Chymrodoriaeth er Anrhydedd i John Hume, un arall a dderbyniodd Wobr Heddwch Nobel.

BODLONI EIN MYFYRWYR

Mae myfyrwyr Bangor unwaith yn rhagor wedi nodi eu boddhad drwodd a thro gydag ansawdd yr addysg y maent yn ei derbyn yn y Brifysgol. Fe wnaeth yr Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr, arolwg annibynnol a gynhelir bob blwyddyn i fyfyrwyr trydedd flwyddyn sy'n graddio, ddangos bod 86% o fyfyrwyr yn fodlon gyda'u cyrsiau drwodd a thro. Mae hyn yn welliant o 1% ar y llynedd, ac yn cymharu'n dda yn erbyn y cyfartaledd o 83% i wledydd Prydain a 82% i Gymru.

Wrth gwrs gall syniadau a disgwyliadau newid ymhlith myfyrwyr o flwyddyn i flwyddyn – ond gall y Brifysgol ac Ysgolion weithio hefyd i wella'r profiad a gaiff myfyrwyr o addysgu a dysgu.

Un Ysgol a wnaeth yn neilltuol dda yw Ysgol y Gymraeg, y mae ei myfyrwyr wedi cofnodi cyfradd fodlonrwydd o 100% am y ddwy flynedd ddiwethaf. Dyma'r unig uned academaidd ym Mhrydain i sgorio 100% am Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd.

"'Y mae'r canlyniad rhyfeddol yma yn adlewyrchu ffaith syml - profiad addysgol y myfyrwyr sy'n dod gyntaf ar restr ein blaenoriaethau ni yn Ysgol y Gymraeg," meddai'r Athro Peredur Lynch.

Cafodd yr Ysgol Addysg a Dysgu Gydol Oes hefyd ganlyniad cadarnhaol iawn o'u carfan Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon. Bangor ddaeth i'r safle uchaf ymysg 58 o sefydliadau, gyda bodlonrwydd cyffredinol o 98%. Roedd hyn hefyd yn welliant sylweddol ar ganlyniad y llynedd o 83%.

Meddai'r Athro Janet Pritchard, Pennaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes:

"Rydw i wrth fy modd efo'r canlyniadau yma sy'n adlewyrchu ymroddiad ac arbenigedd ein staff academaidd ac ategol. Rydym wedi trefnu ein cyrsiau mewn ffordd sy'n ein galluogi i gael perthynas waith agos gyda'n myfyrwyr ac mae unrhyw bryderon a godir ganddyn nhw yn cael eu datrys yn sydyn ac effeithlon; mae'n amlwg bod ein systemau'n gweithio'n dda!

Mae gennym ni system diwtorial a chefnogaeth arbennig sy'n meithrin diwylliant o oruchwyliaeth agos gan fentoriaid a chefnogaeth bersonol i'n myfyrwyr. Mae o'n ddull gweithredu sy'n arbennig o addas ar gyfer gofynion ein myfyrwyr. Mae'r canlyniadau'n cadarnhau rhagoriaeth ar draws cyrsiau Addysg ym Mangor."

Nododd 95% o fyfyrwyr yr Ysgol Seicoleg hefyd eu boddhad cyffredinol. Yn ôl ystadegau'r Ysgol, mae hyn yn eu rhoi'n 6ed yn hyn o beth o blith y 100 o brifysgolion ym Mhrydain sy'n dysgu seicoleg. Mae'r Ysgol wedi llwyddo i wella ei chanlyniadau bob blwyddyn fel yr eglurodd ei Phennaeth, Dr Oliver Turnbull:

"Wrth gwrs, mae yna lawer o bobl sydd wedi helpu i ni gael y canlyniadau arbennig yma – rhai sy'n traddodi darlithoedd, gwaith grŵp bach, cyrsiau sgiliau, gofal bugeiliol, cefnogaeth TG ar gyfer dysgu, gwelliannau i adeiladau a chyfleusterau, trefnu gweithgareddau cymdeithasol a delio gyda chwynion gan sicrhau nad ydym yn gwneud camgymeriadau drachefn; yn wir, pob math o bethau sy'n ymwneud â'n hagwedd tuag at y ffordd mae myfyrwyr yn cael eu haddysgu ac yn dysgu eu hunain."

GŴYL WYDDONIAETH BANGOR

Disgyblion o Ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon yn dod i gysylltiad agos â seren fôr yn ystod Diwrnod Eco-Wyddoniaeth y llynedd.

Cyfathrebu, Cynaladwyedd ac Entrepreneuriaeth fydd themâu canolog 'Gŵyl Wyddoniaeth Bangor', yr ŵyl wythnos gyntaf o'i bath i'w chynnal yn y Brifysgol. Fe'i cynhelir i gyd-ddigwydd ag Wythnos Genedlaethol Gwyddoniaeth a Pheirianneg 2011 (11-20 Mawrth 2011).

Bwriedir cynnal pob math o weithgareddau adloniadol ac addysgiadol a fydd yn apelio at bob oed; o blant ysgol ifanc a theuluoedd i'r cyhoedd yn gyffredinol a phobl broffesiynol sydd â diddordeb yn yr ymchwil ddiweddaraf.

Meddai Rosanna Robinson, Darlithydd yng Ngholeg y Gwyddorau Naturiol ac un o gydlynwyr yr achlysur: "Trwy ddechrau Gŵyl Wyddoniaeth Bangor eleni, mae'r Brifysgol yn bwriadu ymwneud â'r gymuned ehangach yng Ngogledd Cymru a thynnu sylw at yr ymchwil wyddonol arloesol sy'n cael ei gwneud yma. Rydym wrth ein bodd efo'r brwdfrydedd a'r cyffro a welir eisoes, a chyda mwy o ddigwyddiadau'n cael eu hychwanegu bob wythnos, mae'n amlwg y bydd yr Ŵyl yn mynd yn fwy ac yn well hyd yn oed."

Eglurodd Kirsty Thomson, Swyddog Rhoddion o Bwys yn y Swyddfa Datblygu ac Alumni: "Fe wnaeth gwaddol hael gan un o gyn-fyfyrwyr Bangor, Dr Tom Parry Jones, ein galluogi i gynnal 'Diwrnod Eco Wyddoniaeth' hynod lwyddiannus i ysgolion y llynedd. Mae'r ymateb gwych a gafwyd i'r achlysur hwnnw wedi arwain yn uniongyrchol at yr ŵyl fwy yma."

Meddai Stevie Scanlan o Goleg y Gwyddorau Ffisegol a Chymhwysol, "Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau allanol, yn cynnwys awdurdodau lleol, grwpiau a sefydliadau cymunedol ac ieuenctid. Mae busnesau lleol hefyd yn ein cynorthwyo. Y nod yw sicrhau bod Bangor yn ganolbwynt yn yr ardal yma i weithgareddau Wythnos Genedlaethol Gwyddoniaeth a Pheirianneg."

Mae manylion am y digwyddiadau sydd i'w cynnal i'w cael ar wefan Gŵyl Wyddoniaeth Bangor www.bangor.ac.uk/bangorsciencefestival gyda mwy o ddigwyddiadau ymylol yn cael eu hychwanegu bob wythnos. Am fwy o wybodaeth, anfonwch e-bost at: bsf@bangor.ac.uk

Y BRIFYSGOL YN DISGLEIRIO YM MYD Y FFILMIAU

Yn ystod yr wythnosau diwethaf mae nifer o griwiau ffilmio wedi ymweld â'r Brifysgol. Defnyddiwyd ein hadeiladau ar gyfer ffilmio rhan o gyfres arswyd, sydd wedi'i lleoli mewn hen adeilad a drowyd yn fflatiau moethus. Ar achlysur arall, ffilmiwyd cymeriad sy'n 'graddio' o Fangor, yn ogystal ag ymdroi tipyn yn y gorffennol hefyd.

Roedd Will Young ymysg yr actorion a chriw ffilmio a dreuliodd ddau ddiwrnod yn y Brifysgol cyn dechrau'r flwyddyn academaidd. Roedd adeiladau neo-Gothig Prif Adeilad y Celfyddydau a'r Llyfrgell yn rhan o set gyfansawdd o nifer o leoliadau a ddefnyddir i greu '*Bedlam Heights*' – fflatiau modern, newydd mewn hen ysbyty meddwl Fictorianaidd wedi'i adnewyddu. Bydd y gyfres hon, sydd â naws 'arallfydol' iddi, yn cael ei dangos ar y sianel 'Living' yn fuan yn 2011.

Croesawodd y Ganolfan Rheolaeth a Neuadd John Philips raglen One Show y BBC ar gyfer eitem sydd i'w dangos yn Nhachwedd. Mae'r eitem yn ymdrin ag ymweliad y Beatles â Bangor i gyfarfod â Maharishi Mahesh Yogi. Cafodd y *One Show* afael ar bobl leol a oedd wedi bod yn rhan o'r ymweliad a'u cael i rannu eu hatgofion am y dyddiau hynny yn 1967. Cafodd yr eitem ei darlledu ar 23 Tachwedd.

Am fwy o wybodaeth am ymweliad y Beatles â Bangor, ewch i:www.bangor.ac.uk/studentlife/features/beatles.php.en

Meddai Alan Parry, Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Marchnata:

"Mae ffilmio ar leoliad yn rhoi sylw da i'r Brifysgol, yn arbennig gyda rhaglenni ffeithiol. Hefyd mae cael cwmnïau cynhyrchu mawr yn defnyddio'r Brifysgol i ffilmio yn rhoi hwb i'r economi leol."

Y criw ffilmio yn 'Bedlam Heights'

Fe wnaeth yr Ha' Bach Mihangel a gawsom eleni gyd-daro'n gyfleus iawn â ffilmio dathliadau 'seremoni raddio' ffug ar gyfer y prif gymeriad mewn drama gyfres newydd, *Porth Penwaig*, a fydd yn dod i S4C yn fuan. Roedd ambell un mewn penbleth wrth weld 'myfyrwyr' mewn gwisgoedd academaidd a'u 'teuluoedd' yn cael eu ffilmio yn y Cwad Mewnol, mewn golygfa sy'n dwyn i gof seremonïau graddio blynyddol y Brifysgol.

Yn y llun gwelir Roy Flynn a Malgwyn Hughes yn cael eu cyfweld gan y cyflwynydd Carrie Grant. Danfonodd Roy, a oedd yn hogyn danfon telegramau ar y pryd, a Malgwyn, a oedd yn bostmon, delegram i'r Beatles tra oeddent yn aros yn Neuadd Dyfrdwy'r Coleg Normal, sydd bellach yn rhan o'r Ganolfan Rheolaeth. Yn cymryd rhan hefyd roedd dau fachgen ysgol blaengar, Geoff Dacre a Colin Evans.

ASTUDIAETH DAN NAWDD LEVERHULME

Mae Dr Ian Gregson o Ysgol y Saesneg yn mynd i ysgrifennu llyfr am fardd y credir fydd y nesaf i ddal teitl Bardd y Brenin/Frenhines.

Mae Ian Gregson, sy'n feirniad llenyddol a bardd cyhoeddedig, wedi derbyn Cymrodoriaeth Ymchwil Leverhulme, a fydd yn ei alluogi i ysgrifennu llyfr ar Simon Armitage yr hydref hwn.

Meddai Ian Gregson "Mae Simon Armitage yn fardd doniol a chlyfar. Yn fwy diweddar mae wedi sgriptio ffilmiau teledu hefyd a dechrau ymwneud â'r problemau a achosir gan ddifrod ecolegol byd-eang. Bydd yr amser y mae'r Gymrodoriaeth yma'n ei rhoi i mi yn fy ngalluogi i ganolbwyntio'n llwyr ar y project yma."

Llyfr diweddaraf Ian Gregson, a gyd-olygodd gyda Carol Rumens (Ysgol Diwydiannau Creadigol) yw casgliad o waith gan feirdd sydd wedi byw neu weithio yn Hull. Mae *Old City: New Rumours* yn ddilyniant i'r casgliad dylanwadol o 1982 *A Newly Rumoured City* (golygwyd gan Douglas Dunn, gyda rhagair gan Philip Larkin). Mae'r gyfrol newydd yn nodi 25 mlynedd ers marw Philip Larkin.

Yn y gyfrol ceir gweithiau newydd gan yr holl feirdd y cyhoeddwyd eu gwaith yng nghasgliad 1982. Maent yn cynnwys Ian Gregson ei hun, a beirdd eraill yn cynnwys Andrew Motion, Grace Nichols, David Wheatley a Douglas Dunn.

Mae'r gyfrol wedi cael derbyniad da gan y beirniaid.

HAF O GYDNABYDDIAETH



ADDYSGWRAIG SY'N YSBRYDOLI

Yr Athro Judy Hutchings gyda Jane Davidson AC a'r Athro David Egan, un o feirniaid y wobr.

Dyfarnwyd Gwobr Addysgwr Ysbrydoli Cymru i'r Athro Judy Hutchings, Cyfarwyddwr Canolfan Blynyddoedd Rhyfeddol Cymru yn yr Ysgol Seicoleg, am ei gwaith yn dod â gwasanaethau effeithiol i blant yng Nghymru sydd mewn perygl o ymroi i ymddygiad gwrthgymdeithasol. Rhoddwyd y gwobrwyon gan y *Western Mail*, ar y cyd â'r Sefydliad Materion Cymreig, ac fe'u noddwyd gan *Click on Wales*. Mae Judy Hutchings wedi chwarae rhan allweddol yn ymchwilio i'r cynllun Blynyddoedd Rhyfeddol a chyflwyno rhaglenni i rieni, plant ac athrawon ar draws Cymru drwy Ganolfan Blynyddoedd Rhyfeddol Prifysgol Bangor a'r elusen Blynyddoedd Rhyfeddol Cymru.

Meddai hi: "Rwyf wedi gwirioni wrth ennill y Wobr. Mae'n gyfle i mi ddathlu ein hymchwil o bwys a wneir yma, a hefyd gyfraniad a gwaith nifer fawr o arweinwyr grwpiau rhieni anhygoel, athrawon a rhieni sy'n cefnogi plant ar draws Cymru. Heb eu cyfraniad, ynghyd a chyfraniad tîm Blynyddoedd Rhyfeddol Cymru, ni fyddai ein darpariaethau ar gyfer plant yng Nghymru wedi bod yn bosibl."







O'r dde i chwith:
Jane Edwards
Syr Christopher Evans
Yr Anrhydeddus Ustus
Mr Roderick Evans

Syr Simon Jenkins
Bob Owen

Mike Peters
Yr Athro Keith Robbins

CYMRODYR ER ANRHYDEDD

Bu'r Brifysgol eto'n anrhydeddu unigolion am eu cyfraniadau neilltuol mewn gwahanol feysydd drwy eu gwneud yn Gymrodyr er Anrhydedd o Brifysgol Bangor. Y rhai a dderbyniodd gymrodoriaethau eleni oedd: Jane Edwards, nofelydd; Syr Christopher Evans, entrepreneur blaenllaw ym maes biodechnoleg; Yr Anrhydeddus Ustus Mr Roderick Evans, Barnwr yr Uchel Lys; Syr Simon Jenkins, newyddiadurwr ac awdur a Chadeirydd Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol; Mr Bob Owen, hanesydd lleol; Mike Peters, cerddor ac un sy'n codi arian at elusennau; Yr Athro Keith Robbins; hanesydd modern a chyn Is-Ganghellor Prifysgol Cymru Llanbedr Pont Steffan (bellach Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant).

CYMRODYR DYSGU


Yr Athro Tony Brown


Mr Aled Griffiths

Yn ystod y seremonïau graddio dyfarnwyd Cymrodoriaethau Dysgu i Mr Aled Griffiths, Ysgol y Gyfraith, yr Athro Jonathan Williams, Ysgol Busnes a'r Athro Tony Brown o Ysgol y Saesneg. Rhoddwyd y cymrodoriaethau hyn iddynt i gydnabod eu rhagoriaeth ym mhob agwedd ar ddysgu myfyrwyr a rhoi cefnogaeth iddynt.


Yr Athro Jonathan Williams



MEDAL RYDDIAITH

Llongyfarchiadau i Jerry Hunter, darllenydd yn Ysgol y Gymraeg, ar ennill y Fedal Ryddiaith yn yr Eisteddfod fis Awst.

Dyfarnwyd y Fedal am gyfrol o ryddiaith greadigol heb fod dros 40,000 o eiriau ar y testun *Adfywiad*. Gan ysgrifennu dan y ffugenw "M.W.", ymdriniodd Jerry yn ei gyfrol, *Gwenddydd*, â chyflwr sydd wedi bodoli ar hyd y canrifoedd, ond a elwir heddiw'n anhwylder straen ôl-drawmatig.

Wrth drafod ei waith, dywedodd Jerry: "Gyda rhyfel yn bla ar ein byd ni o hyd, mae rhywun yn clywed yn aml am y modd y mae *Post-Traumatic Stress Disorder* yn effeithio ar fywydau milwyr a chyn-filwyr. Wrth gwrs, nid peth newydd mohono; yn wir, roedd gan y beirdd a'r storïwyr Cymraeg canoloesol ffyrdd o drafod yr un peth. Dyna, er enghraifft, y stori honno am Fyrddin Wyllt – a aeth o'i go' ym mrwydr Arfderydd. Aeth i fyw mewn coedwig wedyn – yn 'ddyn gwyllt y coed' – lle'r oedd yn cyfansoddi barddoniaeth broffwydol. Roedd yn osgoi pobl eraill, a'i chwaer Gwenddydd oedd yr unig un a gâi ymddiddan ag ef.

Roedd arna' i eisiau archwilio ochr ddynol y stori honno – union natur y berthynas rhwng y brawd a'r chwaer, yr hyn a oedd yn digwydd yn ystod eu cyfarfyddiadau yn y goedwig, ac yn y blaen. Fy mwriad oedd amlygu'r wedd oesol ar y stori honno drwy'i gosod mewn cyfnod diweddar – neu ddiweddarach. Pan fyddaf yn meddwl am y cysylltiad rhwng y presennol a'r gorffennol, mi fyddaf yn aml yn meddwl am yr Ail Ryfel Byd – croesffyrdd y byd modern, fel petai, yn brofiad sy'n perthyn i hanes ac eto'n ddigon agos atom o hyd. Bu fy niweddar fam-yng-nghyfraith, Jane Humphreys, yn nyrsio mewn ysbyty milwrol yn ystod y rhyfel hwnnw; ni ddywedwn fod y cymeriad Gwen wedi'i seilio arni hi, ond bu clywed am yr hyn a ddaeth i'w rhan yn ystod blynyddoedd y Rhyfel yn fodd imi agosáu at y math yna o brofiad."

Mae *Gwenddydd* bellach ar gael mewn siopau llyfrau.

YSGOLORIAETHAU SANTANDER

Ymwelodd pedwar o fyfyrwyr ôl-radd â changen Banc Santander ym Mhrif Lyfrgell y Celfyddydau ym Mhrifysgol Bangor yn ddiweddar i gyfarfod â rheolwr y gangen, Veselina Vasileva, a chael eu llongyfarch ganddi.
Mae'r pedwar, Fernando Pinillos, Maialen Herrero, Alejandro Gonzáles ac Eduardo Manso Del Valle yn dderbynwyr Ysgoloriaethau Ôl-radd Santander, sy'n werth £5,000. Un arall a dderbyniodd ysgoloriaeth oedd Pablo Recher, na allai fod yn bresennol.

Hwy yw'r rhai cyntaf i dderbyn yr Ysgoloriaethau – sy'n cael eu rhoi am dair blynedd. Maent ar gael i ymgeiswyr ôl-radd o wledydd yn Ne America sy'n cymryd rhan yng nghynllun Prifysgolion Santander, ac sydd wedi cael eu derbyn i astudio ar gwrs ôl-radd hyfforddedig ym Mhrifysgol Bangor.

Mae enillwyr yr ysgoloriaethau eleni yn astudio yn yr Ysgol Gwyddorau Eigion, Ysgol Busnes Bangor a'r Ysgol Seicoleg.

"Mae hyn yn cyd-fynd yn dda â'n hamcanion i godi nifer myfyrwyr ôl-radd ym Mangor. Rydym yn hynod ddiolchgar i Brifysgolion Santander am y gefnogaeth y maen nhw'n ei rhoi i'r myfyrwyr yma i'w galluogi i astudio ym Mangor, ac rydym yn edrych ymlaen at groesawu mwy o ysgolheigion Santander i Fangor yn y dyfodol," meddai David Fordham, Dirprwy Gofrestrydd a Chofrestrydd Academaidd.

O'r chwith i'r dde gwelir: Maialen Herrero, Fernando Pinillos, Alejandro Gonzáles ac Eduardo Del Valle gyda rheolwr y gangen, Veselina Vasileva.

BANGOR – PRIFYSGOL ACE!

Project peilot yw Hyrwyddwyr Mentergarwch yn Academia (Academic Champions of Enterprise (ACE)) dan reolaeth y Ganolfan Gyrfaoedd a Chyfleoedd ym Mhrifysgol Bangor mewn partneriaeth gyda phrifysgolion Aberystwyth ac Abertawe. Bwriad y project sydd o dan nawdd Llywodraeth Cynulliad Cymru yw hyrwyddo mentergarwch, a dod o hyd i gyfleoedd i gael cymorth, trwy gysylltu â staff sydd yn hyrwyddo mentergarwch yn eu hadrannau.

Hyrwyddwyr Bangor yw Dr Andy Goodman a Dr Iestyn Pierce o'r Ysgol Peirianneg, Dr Eben Muse o'r Ysgol Astudiaethau Creadigol, Dr Claire Doloriert o'r Ysgol Busnes, Dr James Intrilligator o'r Ysgol Seicoleg, Dewi Rowlands, Ganolfan Dylunio a Thechnoleg a Dr Brec'hed Piette ill dau o Ysgol Addysg a Dysgu Gydol Oes. Mae'r hyrwyddwyr yn gyfrifol am hyrwyddo menter ymysg staff, gan eu hannog i fod yn fwy mentrus o fewn eu swyddi ac i ystyried mapio'r ddarpariaeth gyfredol. Er mwyn gallu gwneud hyn, mae Hyrwyddwyr Bangor wedi mynychu digwyddiadau a chynadleddau mentergarwch cenedlaethol lle maent wedi gweld manteision addysgu sydd wedi ei gymhwyso i faes mentergarwch, er mwyn gwella cyfle myfyrwyr i gael swyddi. Fel rhan o'r project cynhaliodd yr hyrwyddwyr arolwg hefyd ymysg yr ysgolion oedd yn cymryd rhan i ganfod agweddau at fentergarwch.

Ym mis Ionawr cyfarfu hyrwyddwyr o'r tri sefydliad i rannu ymarfer da ac i ymchwilio i'r cyfleoedd i ddysgu am fentergarwch a datblygu sgiliau. Roedd y siaradwyr yn cynnwys Dr Simon Brown, Prifysgol Southampton Solent sef Cadeirydd Presennol Enterprise Educators UK a Dr David Gibson o Brifysgol Queens, Belfast, sydd wedi llwyddo i ddatblygu strategaethau i ymgorffori ac asesu dysgu entrepreneuraidd ym mhob un o'r cyrsiau gradd yn Queens.

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae hyrwyddwyr Bangor wedi datblygu ac wedi treialu 'Mentergarwch trwy Ddylunio' – her busnes rhyngddisgyblaethol pwysig ar gyfer myfyrwyr yn eu hysgolion. Heriwyd timau o ddisgyblaethau cymysg i ddylunio nwydd newydd dros gyfnod o chwe wythnos ac yna gyflwyno eu syniadau i banel o arbenigwyr o blith entrepreneuriaid lleol. Dilynwch y cyswllt hwn i ddarllen mwy - www.bangor.ac.uk/news/full.php?Id=1229
Menter bwysig oedd hon sydd wedi ysgogi diddordeb o blith sefydliadau allanol i ddatblygu syniadau ac a fydd hefyd yn creu cyfleoedd ymchwil i hyrwyddwyr Bangor.

RHESTR FER AM GEFNOGAETH NEILLTUOL I FYFYRWYR

Mae Cynllun Arweinwyr Cyfoed y Brifysgol wedi ei roi ar restr fer ar gyfer Gwobr gan *Times Higher Education* am Gefnogaeth Neilltuol i Fyfyrwyr. Cyhoeddir pwy yw'r enillydd ar 25 Tachwedd.

Mae'r Cynllun Arweinwyr Cyfoed wedi tyfu dros y blynyddoedd ac mae recriwtio a hyfforddi'r Arweinwyr yn gryn dasg. Mae'r buddiannau i'r Brifysgol fodd bynnag yn ei wneud yn werth yr ymdrech.

"Yn ôl ein profiad, rydym yn gwybod mai po gyflyma y mae'r myfyrwyr newydd yn integreiddio'n gymdeithasol, cyflymaf y maent yn integreiddio o safbwynt academaidd hefyd. Mae'r Arweinwyr Cyfoed yn cyfrannu gan greu cyfleoedd i'r myfyrwyr newydd gymdeithasu, a thrwy hynny ymaddasu. Mae'r Arweinwyr Cyfoed hefyd yn elwa, gan ennill sgiliau cyflogaeth gwerthfawr yn y broses," ychwanega'r Athro Colin Baker, Dirprwy Is-Ganghellor sydd â chyfrifoldeb dros Addysgu a Dysgu.

Mae'r Cynllun Arweinwyr Cyfoed yn paru myfyrwyr newydd gydag 'Arweinwyr Cyfoed', myfyrwyr ail neu drydedd flwyddyn sy'n gweithredu fel mentoriaid, gan drefnu gweithgareddau cymdeithasol, arwain myfyrwyr o amgylch y Brifysgol a'r ddinas a rhoi cyngor cyffredinol, o'r lle gorau i siopa at gynghori lle yn y Brifysgol i fynd am gefnogaeth academaidd a chefnogaeth fugeiliol. Mae'n un o'r cynlluniau mwyaf o'i fath ym Mhrydain, ac wedi bod yn datblygu ac ehangu ers y peilot cyntaf dros 15 mlynedd yn ôl. Eleni, am y tro cyntaf, bydd gan fyfyrwyr ôl-radd eu cynllun cyfeillio cyfatebol, sef Arweinwyr Ôl-raddedigion.

Stevie Fox, Arweinydd Cyfoed Uwch yn rhoi cymorth i las-fyfyrwraig

SAFLE WE YMYSG GOREUON GWLEDYDD PRYDAIN

Nid oes amheuaeth nad yw ein lleoliad fel prifysgol heb ei ail. Bellach rydym yn gwybod bod ein safle we hefyd ymysg y goreuon - wedi i ddarpar fyfyrwyr ei ddewis fel un o'r safleoedd gorau gan brifysgolion ym Mhrydain.

Gosododd adroddiad diweddar yn y *Times Higher Education* wefan Bangor ymysg y safleoedd mwyaf effeithiol, o ran rhoi'r wybodaeth angenrheidiol y mae ar ddarpar fyfyrwyr ei hangen wrth iddynt benderfynu ymhle i astudio.

Gofynnodd yr arolwg i sampl o fyfyrwyr chweched dosbarth ystyried amrywiaeth o wefannau prifysgol ar sail nifer o feini prawf. Sgoriodd safle Bangor y marciau uchaf yn y rhan fwyaf o gategorïau, gan gynnwys hwylustod defnyddio, rhwyddineb cael hyd i fanylion cyswllt a gwybodaeth bellach, a rhoi safbwynt myfyrwyr ar astudio ym Mangor, drwy wneud defnydd effeithiol o broffiliau a chyfweliadau gyda myfyrwyr presennol. Sgoriodd safle Bangor yn uchel hefyd am roi golwg i ddarpar fyfyrwyr ar fywyd ar y campws, yn arbennig trwy ddefnyddio fideos a chyfweliadau ar BangorTV.

"Mae'n wefan sydd wedi'i chynllunio'n dda ac yn llawn dychymyg" oedd un o'r sylwadau a wnaed am safle Bangor, gyda'r dudalen gartref a'r sianel BangorTV hefyd yn cael sylwadau canmoliaethus.

Cydlynir y wefan gan Dîm Gwe'r Brifysgol, sy'n cynnwys staff o'r Gwasanaethau Technoleg Gwybodaeth a Cyfathrebu Corfforaethol a Marchnata. Mae datblygiadau diweddar yn cynnwys y sianel fideo, BangorTV, yn ogystal â phresenoldeb y Brifysgol ar safleoedd rhwydweithio fel *Facebook, Twitter* ac *YouTube*.

Meddai Alan Parry, Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Marchnata ym Mangor: "Ein nod yw sicrhau bod gwefan Bangor yn ddeniadol, yn llawn gwybodaeth ac yn hawdd ei defnyddio. Mae cynllun y safle yn cael ei uwchraddio'n gyson er mwyn sicrhau fod 'y golwg a'r teimlad' yn ddeniadol i ddefnyddwyr.

"Mae tîm y we yn darparu cynnwys a deunydd arloesol sy'n sicrhau bod y safle'n ddiddorol a llawn gwybodaeth i ymwelwyr ac mae datblygiadau technolegol newydd yn cael eu cyflwyno'n gyson. Rydym yn gweithio hefyd efo myfyrwyr presennol er mwyn rhoi gwir flas o Fangor i ddarpar fyfyrwyr drwy'r safle i gyd, ac mae hynny wedi bod yn llwyddiannus dros ben. Rydym yn hynod falch bod gan ddefnyddwyr gymaint o feddwl o'r safle."

BRAF CYFARFOD *Arwel Lewis*

Cydlynnydd Diogelwch Adran Ystadau a Chyfleusterau

Ac yntau'n rhedwr lôn, traws gwlad a mynydd sydd wedi gorffen dros 1,000 o rasus, Arwel yw enillydd Ras yr Wyddfa eleni a'r llynedd yn y dosbarth i rai dros 50 oed. Gorffennodd y ras mewn 1 awr a 27 munud eleni. Arwel hefyd yw pencampwr rhedeg mynyddoedd yng Nghymru i rai dros eu 50. Mae hefyd ar hyn o bryd yn dal teitlau Gogledd Cymru am redeg 5 cilomedr, 10 cilomedr a 10 milltir ar ffyrdd, ac mae'n gobeithio ennill y ras 5 milltir hefyd i gwblhau'r set. Mae hefyd yn rheoli amryw o dimau rhedeg ac, ar hyn o bryd, ef yw cadeirydd tîm llwyddiannus yr Eryri Harriers.

Ers faint ydach chi wedi bod yn gweithio yn y brifysgol? Ers 1989, cyn hynny roeddwn i'n gweithio yn yr un maes yn ysbyty Gwynedd a chyn hyn roeddwn i yn y Fyddin.

Beth ydych chi'n ei fwynhau fwyaf am eich gwaith? Cymysgu â phobol.

Beth sydd ddim mor bleserus? Codi'n fuan yn y bore!

Ers faint fuoch chi'n rhedeg/ rhedeg mynyddoedd? Dwi'n rhedeg ers y 70au gyda rhai ysbeidiau. Dechreuais redeg mynyddoedd wrth i mi golli sbîd ar y lôn (record cyflyma Arwel ydy 2 awr 20 munud am farathon yn Berlin yn 79) gan nad oes angen sbîd i redeg mynyddoedd.

Pam ydach chi'n rhedeg? Am fod gen i awch gystadleuol ac yn licio ennill.

Llwyddiannau diweddar? Y llwyddiant mwyaf diweddar oedd efo'r Eryri Harriers- dwi'n Gadeirydd y Clwb eleni ac yn Ysgrifennydd Rhedeg Lôn yn ogystal. Fe wnaeth ein merched ennill y Bencampwriaeth Rhedeg Mynyddoedd a Bryniau Prydeinig yn dilyn eu llwyddiant yn ennill pencampwriaethau traws gwlad Gogledd Cymru yn gynharach yn y flwyddyn.

Mae Arwel hefyd yn rheoli'r Welsh Athletics Mountain Running Team, UK Athletics Mountain Running Team ac mae ar bwyllgor Welsh Athletics Road Running. Mae ei redeg a rheoli timau rhedeg wedi mynd ag ef i sawl gwlad- yn fwyaf diweddar i Bwlgaria efo'r Tîm Prydeinig er mwyn cystadlu yn y Pencampwriaethau Ewropeaidd ym mis Gorffennaf.

O lle daw'r stamina? O ymarfer. Mae faint dwi'n ymarfer yn dibynnu ar y ras dwi'n paratoi ar ei chyfer - ond yn y gaeaf byddaf yn ymarfer drwy redeg ar y trac rhedeg yn Treborth- gan ei bod yn fwy diogel yno.

Beth arall sy'n rhoi pleser i chi / sut ydach chi'n ymlacio? Gwylio pêl-droed- rwy'n mynd i wylio Dinas Bangor- y tîm lleol.

Sut ydach chi'n cael cydbwysedd rhwng rhedeg a rheoli'r timau rhedeg a gofynion gwaith? Does dim digon o oriau yn y diwrnod a dweud y gwir! Mae'r penwythnosau ar gyfer rhedeg a gweinyddu timau, tra mai'r gwaith sy'n cael y sylw yn bennaf o ddydd Llun i ddydd Gwener.

FLWYDDYN YN DDIWEDDARACH

Flwyddyn ar ôl i'r Brifysgol lofnodi ymrwymiad gan y Gweithgor Iechyd a Diogelwch (HSE) i chwarae ei rhan i leihau marwolaethau, anafiadau a salwch yn gysylltiedig â gwaith, mae ymgyrch y Brifysgol i wella iechyd a lles a diogelwch wedi cael sylw mewn cyhoeddiad gan yr HSE ar achlysur blwyddyn ers llofnodi'r ymrwymiad.

Yn yr erthygl rhoddir sylw i Llwybrau i Iechyd, strategaeth a ddatblygwyd a'i rhoi ar waith gan adran Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch y Brifysgol. I gefnogi'r strategaeth, mae cynlluniau fel archwiliadau iechyd personol a roddir gan yr Ymarferwr Iechyd Galwedigaethol, Joe Patton, wedi cael eu rhoi i dros 400 o aelodau staff. Cynllun arall rydych wedi clywed amdano efallai yw'r 'Clwb Cefn', cwrs wyth wythnos sy'n cynorthwyo staff i reoli eu poen a'u hanghysur. Mae staff sydd wedi dioddef poen cefn yn ystod y 12 mis diwethaf yn cael eu gwahodd i ddod i ddosbarthiadau arbennig ar eu cyfer ym Maes Glas. Diben yr ymarferion yw cryfhau'r cyhyrau sy'n cynnal yr asgwrn cefn, gan eu helpu i leihau'r perygl o gael problemau cefn yn y dyfodol.

Meddai Gareth Wynn Jones, Pennaeth y Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch: "Gwelwyd gostyngiad o 37% mewn absenoldeb salwch yn y Brifysgol rhwng 2007 a 2009. Mae hyn yn sicr yn adlewyrchu'r gwaith sydd wedi cael ei wneud i wella a chefnogi iechyd staff. Wrth i'r cynlluniau yma ddwyn ffrwyth mae mwy a mwy o staff yn dod yn ymwybodol o'u pwysigrwydd ac yn eu cefnogi."

I gael gwybodaeth bellach ar gynlluniau cefnogi iechyd a'r Ymrwymiad, ewch i: hss.bangor.ac.uk

RHOI YN Y GWAITH

Hosbis plant Tŷ Gobaith yw elusen fabwysiedig Prifysgol Bangor ers nifer o flynyddoedd bellach. Yn ystod y cyfnod hwn, mae'r Brifysgol wedi codi arian trwy amrywiol ddigwyddiadau a loteri i'r staff.

Cyflwynodd y Brifysgol siec gwerth £3,485 i Dŷ Gobaith ym Mehefin. Codwyd yr arian trwy loteri staff 2009 (£3,000), her colli pwysau 2010 (£335.20) a thaith feic noddedig o Brifysgol Bangor i Brifysgol Aberystwyth (£150).

Mae gweithgareddau codi arian wedi parhau eleni. Fis Hydref fe wnaeth 23 o aelodau staff abseilio 110 o droedfeddi i lawr Tŵr y Marcwis ger Llanfair-pwll, gan godi £1,300 ac ym Medi, aeth 16 o staff i ben Yr Wyddfa, gan godi £467 ymhellach at Dŷ Hafan.

Ymwelodd aelodau staff o'r Adran Gyllid â Ward Alaw yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar i gyflwyno siec am £600 er cof am Grace Roberts, cyn aelod staff yn yr adran. Codwyd yr arian ymysg y staff a noddodd Raymond Tugwell ar ei daith gerdded flynyddol at elusen.

Penderfynodd staff y byddai rhodd er cof am Grace Roberts yn deyrnged addas i gyn gydweithiwr a oedd bob amser yn garedig ac a oedd yn ymddiddori yn nheuluoedd a phlant ei chydweithwyr. Ymddeolodd Grace Roberts o'i swydd fel Goruchwyliwr yr Adran Gyflogau yn 2005, ar ôl gweithio i'r Brifysgol am 35 mlynedd.



Un o'r abseilwyr dewr

Cynhaliwyd Bore Coffi Macmillan ddydd Gwener, 24 Medi, yng Nghanolfan Rheolaeth Ysgol Busnes Bangor, fel rhan o Fore Coffi Mwya'r Byd. Daeth dros 100 o ymwelwyr i'r Ganolfan mewn ychydig dros awr. Ymunwyd â staff, ffrindiau a theuluoedd gan ymwelwyr o'r gymuned leol a oedd wedi dod i wybod am yr achlysur drwy Google. Gan gydweithio'n agos â Jenny Byast, cydlynydd lleol yr ardal, fe wnaeth staff yn Y Ganolfan roi cacennau cartref i gefnogi'r bore coffi a chael rhoddion i'r achos gwerth chweil hwn. Llwyddwyd i gasglu £100 at elusen Macmillan drwy werthu coffi, rhoddion am gacennau a'r raffl. Diolchir i bawb a gyfrannodd ac a ddaeth i'r achlysur blynyddol hwn.

Y grŵp o lewion a fu'n dringo'r Wyddfa.

Hilary Jones ac Audrey Sharpe o'r Adran Gyllid yn cyflwyno eu siec i staff yn Ward Alaw Ysbyty Gwynedd.

Wyddoch chi?

ANRHYDEDD PWYSIG I'R YSGOL CEMEG

Mae'r Ysgol Cemeg wedi cael ei hanrhydeddu drwy dderbyn *Landmark Award* y Gymdeithas Gemeg Frenhinol (RSC). Dyma'r anrhydedd cyntaf o'i fath i ddod i Fangor ac, yn wir, y cyntaf o'i fath drwy Gymru gyfan.

Dyfarnwyd *Chemical Landmark Plaque* yr RSC i gydnabod ymchwil allweddol bwysig Yr Athro Ted Hughes ym maes Cemeg Ffisegol Organig a hefyd y ganrif a chwarter o ragoriaeth mewn Cemeg ym Mangor.

Roedd Yr Athro Hughes yn Bennaeth yr Ysgol Cemeg o 1943-8. Cyfrannodd ei ymchwil at ddealltwriaeth ddyfnach o fecanweithiau adwaith organig, sy'n awr yn sail i gwricwla Cemeg prifysgolion led led y byd.

Mae'r berthynas faith a ffurfiwyd rhwng yr RSC a'r Ysgol Cemeg wedi bod yn hynod bwysig. Mae pob agwedd ar Gemeg wedi elwa arni, o ddysgu ac ymchwil i ddigwyddiadau i ysgolion a darlithoedd cyhoeddus. Mae llawer o swyddogion ac aelodau pwyllgor Adran Leol yr RSC yn staff a myfyrwyr Ysgol Cemeg Bangor. Mae gwasanaethu ar bwyllgor yr RSC wedi bod yn brofiad amhrisiadwy i lawer o fyfyrwyr. Mae'r RSC nid yn unig wedi cyfoethogi'r profiad a gaiff myfyrwyr yma ym Mangor, ond mae wedi cynorthwyo hefyd i ennyn diddordeb cenedlaethau o blant ysgol mewn gwyddoniaeth.



Dr Mike Beckett, Pennaeth Gweithredol yr Ysgol Cemeg, a'r plac.

MEDDALWEDD NEWYDD FIDEO-GYNADLEDDA BWRDD GWAITH

Nid y ddarlith a'r seminar draddodiadol yw'r unig leoliadau neu ddulliau bellach o gyflwyno addysg i fyfyrwyr. Erbyn hyn defnyddir amrywiaeth o ddulliau a thechnolegau er mwyn sicrhau bod myfyrwyr yn elwa i'r eithaf ar eu profiadau dysgu, yn ogystal ag ystyried y cyfrwng mwyaf priodol ar gyfer cyfleu gwahanol fathau o wybodaeth a chael myfyrwyr i gymryd rhan mewn dysgu.

Un o'r dulliau diweddaraf sy'n cael ei ddefnyddio'n arbrofol fel offer dysgu yw meddalwedd fideo-gynadledda bwrdd gwaith.

Yn ddiweddar fe wnaeth tiwtoriaid yng Nghanolfan Bedwyr ddefnyddio'r system am y tro cyntaf yn ystod cwrs dysgu o bell yn para deuddeg wythnos.

Gan ddefnyddio gwe gamerâu a phensetiau, roedd myfyrwyr a thiwtoriaid yn gallu cyfathrebu â'i gilydd o'u swyddfeydd neu eu cartrefi heb orfod mynd i ystafell fideo-gynadledda. Teimlai myfyrwyr ar y cwrs bod gallu gweld eu tiwtor wyneb yn wyneb a gallu rhannu dogfennau yn fantais fawr.

Meddai Eleri Hughes, Uwch Diwtor yng Nghanolfan Bedwyr:

"Gan mai cwrs dysgu o bell ydy hwn, dim ond am 12 diwrnod allan o'r tri mis y mae'r athrawon a'r darlithwyr yma gyda ni yn y coleg. Roedd gallu trafod adborth, ac unrhyw broblemau a oedd yn codi gyda'r gwaith, wyneb yn wyneb yn gwneud pethau'n llawer haws i bawb.

Mae'r tîm Technoleg Iaith hefyd wedi dangos yn ddiweddar sut mae'r meddalwedd yn gweithio i staff yn yr Ysgol Addysg a Dysgu Gydol Oes sy'n ymwneud â rhaglen ar y cyd â Phrifysgol Aberystwyth.

Eleri Hughes, un o'r tiwtoriaid yng Nghanolfan Bedwyr, yn defnyddio'r meddalwedd fideo-gynadledda bwrdd gwaith i gyfathrebu ag un o'r myfyrwyr ar y cwrs.

GWOBR GOFFA AM DRAETHAWD

Mae'r cyfnodolyn *Twentieth Century British History* (TCBH) wedi enwi ei Wobr Traethawd yn Wobr Traethawd Duncan Tanner i gofio amdano a'i gyfraniad i'r cyfnodolyn ac i addysg i ôl-radd yn gyffredinol. Amcan Gwobr Traethawd Duncan Tanner yw annog safon uchel o ysgolheictod ymysg myfyrwyr ymchwil ôl-radd ym Mhrydain a thramor.

Bu'r Athro Tanner yn Gyfarwyddwr Ymchwil i'r Brifysgol a hefyd yn Gyfarwyddwr y Sefydliad Cymreig dros Faterion Cymdeithasol a Diwylliannol (WISCA) hyd ei farwolaeth gynamserol yn Chwefror.

Meddai Stephen Brooke, cyd-olygydd y cyfnodolyn: "Ymunodd Duncan Tanner â thîm golygyddol TCBH yn Ionawr 2007, ac roedd newydd gymryd swydd golygydd rheolaethol pan fu farw'n gynharach eleni. Bu cyfraniad Duncan i TCBH yn ystod ei gyfnod golygyddol yn eithriadol. Roedd ei farn olygyddol bob amser yn glir a phendant, weithiau'n eithriadol gryno, a bob amser yn drwyadl o ran dyfnder a manylder. Wrth olygu cyfunai Duncan awdurdod a chydymdeimlad. Yn naturiol roedd yn awyddus i gyhoeddi'r erthyglau gorau y gallem eu cael, ond hefyd defnyddiai'r broses olygyddol i gynnig anogaeth a beirniadaeth adeiladol, yn arbennig i ysgolheigion iau. Daeth a lled a dyfnder rhyfeddol i'r cyfnodolyn, ymrwymiad diwyro i ragoriaeth, a chred yn TCBH fel fforwm flaenllaw ar gyfer ysgolheictod hanesydd, lle gallai ysgolheigion profiadol a rhai ar ddechrau eu gyrfa gael eu cydnabod. Roedd hwn yn gyfraniad i hanes Prydeinig yr ugeinfed ganrif a oedd yn mynd ymhell y tu hwnt i dudalennau'r cyfnodolyn. Wrth wraidd ymestyniad diweddar TCBH i ymdrin ag archifau ac adroddiadau ffynonellol, roedd cred gadarn Duncan ym mhwysigrwydd y broses ymchwil - rhywbeth a welwyd hefyd yn ei ymroddiad i hyfforddiant ymchwil ôl-radd, ei ymwneud â materion rhyddid gwybodaeth a'i ddiddordeb mewn digideiddio. Roedd Duncan yn bendant a phlaen ei farn a wfftiai at unrhyw ddiogi deallusol. Ond roedd hefyd yn frwdfrydig, yn gynnes a chefnogol a chyda math arbennig o ffraethineb treiddgar. Hefyd, er gwaethaf ei holl ymrwymiadau eraill, roedd bob amser yn hael gyda'i amser. Roedd yn fraint i ni gael gweithio â Duncan a bydd colled fawr ar ei ôl."

Cyhoeddir Newyddlen gan Adran Cysylltiadau Corfforaethol a diweddar o'r Brifysgol ar www.bangor.ac.uk/news • Dylid anfon unrhyw eitem i'w cynnwys yn y rhifyn nesaf o Newyddlen at y Golygydd: Elinor Elis-Williams, Swyddog y Wasg, Adran Cysylltiadau Corfforaethol a Marchnata, Prifysgol Bangor. E-bost: press@bangor.ac.uk
h Prifysgol Bangor. Cysylltwch â'r Golygydd am ganiatâd i atgynhyrchu unrhyw erthygl. Ceir newyddion diweddar o'r Brifysgol ar www.bangor.ac.uk/news